# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog Harbour Consultative Committee*

## *22 Medi/September 2010*

**Adroddiad yr Uned Morwrol a Pharciau Gwledig**
**Maritime and Country Parks Service Unit Report**

*1 - __Mordwyo__*

***1.1*** Oherwydd amrywiad aml a chyson yng nghyfeiriad y sianel fordwyo yn ystod 2010, roedd angen adleoli nifer o Gymhorthion Mordwyo wrth i gwrs y sianel newid. Er bod y sianel wedi aros yr un fath yn ystod rhan fwyaf o fisoedd yr haf, bu newidiadau yn ei chyfeiriad yn aml yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn.

***1.2*** Mae pob llusern fordwyo wedi bod yn ei lle drwy gydol y flwyddyn, er mai dim ond tymhorol yw'r gofyn. Yn ystod dechrau 2010, gosodwyd llusernau ychwanegol ar y Cymhorthion Mordwyo sydd wedi'u lleoli o fewn ardal yr harbwr mewnol ac mae hyn wedi bod yn gymorth sylweddol i forwyr. Roedd gosod llusernau ychwanegol yn rhan o'r cynllun gwella mordwyo, ac felly roedd costau ychwanegol wrth gysylltu'r llusernau i'r cymhorthion mordwyo. Cyfanswm cost y llusernau ychwanegol a'r llusernau newydd oedd **£1,825.**

***1.3*** Prynwyd Cymhorthion sefydlog ychwanegol ar gyfer mordwyo. Sefydlwyd un cymhorthydd ar Gei Ballast a bydd dau Gymhorthydd Modrwyo sefydlog ychwanegol yn cymryd lle'r rhai sydd wedi dirywio yn ardal Clwb Hwylio Porthmadog a Doc Peilot.

***1.4*** Bydd yr Harbwrfeistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn paratoi rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y gwaith o gynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo sydd i'w gyflawni yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf a rhagwelir y bydd yr holl waith cynnal a chadw wedi'i gwblhau erbyn y Nadolig. Bydd yr Harbwrfeistr yn dosbarthu'r rhaglen waith yn y cyfarfod.

***1.5*** Dengys lleoliad presennol yr holl Gymhorthion Mordwyo a nodweddion goleuo'r llusernau sydd dan reolaeth Harbwr Porthmadog yn y cynllun sydd ynghlwm.

*2 __Datblygiadau'r Clwb Hwylio__*

***2.1*** Bydd yr aelodau'n cofio bod Clwb Hwylio Madog wedi cyflwyno cais i Gyngor Gwynedd yn ymwneud ag ymestyn y cyfleuster i angori ar bontŵn yn Harbwr Porthmadog. Mae Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr yn cefnogi'r prosiect, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn cadarnhad gan Glwb Hwylio Madog na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar hydrodynameg llif y llanw yn ardal y pontŵn.

***2.2*** O ystyried bod prif lithrfa'r harbwr wedi'i hymestyn er mwyn ymestyn y cyfnod y gellir lansio cychod, mynegwyd pryder efallai na fyddai modd lansio'r llestri pe bai estyniad y pontŵn yn parhau ar hyd ochr y llithrfa a thua'r môr. Fodd bynnag, yn dilyn astudiaethau diweddar, adnabuwyd mai minimal fyddai effaith y datblygiad arfaethedig.

Adnabuwyd y byddai'n anodd iawn lansio cychod mewn dŵr isel, felly ni fyddai ymestyn y pontŵn yn cael effaith andwyol ar ddefnyddio'r llithrfa.

2.3 Yn ddiweddar, ymgynghorwyd â'r Uned Morwrol ynghylch y datblygiad ac mae'n rhaid cyflwyno'r sylwadau i Dŷ'r Drindod erbyn 15 Medi, 2010. Yn ogystal, rhaid cyflwyno sylwadau i'r Uned Caniatadau Morwrol, Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn yr un dyddiad. O ystyried bod Pwyllgor yr Harbwr wedi cytuno i'r egwyddor o ymestyn y cyfleuster, ni ragwelir y dylid gwrthod y bwriad yn gyfan gwbl. Bydd yr Uned Morwrol yn argymell i Dŷ'r Drindod y dylid gosod goleuadau sefydlog, efallai 2 F.R.(vert) ar bob pen i'r datblygiad, sef ar ochr y môr ac ar ochr y tir. Bydd y goleuadau'n ddibynnol ar ganiatâd Tŷ'r Drindod a bydd angen i Glwb Hwylio Madog eu cynnal a chadw pe bai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen.

***2.4*** Cyn y datblygiad pontŵn presennol, bydd yr Aelodau'n cofio y byddai mynediad i lestri sydd wedi angori yn ardal Clwb Hwylio Madog ar gael drwy ddefnyddio grisiau hanesyddol (sy'n adeiladwaith rhestredig) sy'n arwain o'r Clwb Hwylio i ddyfroedd yr harbwr. Yn y gorffennol mae aelodau'r cyhoedd wedi medru manteisio ar ddefnyddio'r grisiau heb unrhyw rwystr ac mae defnydd o'r fath o'r grisiau'n dyddio'n ôl i'r amser pan oedd llechi'n cael eu hallforio o'r harbwr.

***2.5*** Mae datblygiad presennol y pontŵn yn darparu ramp mynediad i'r pontŵns i gerddwyr ac felly'n gwarchod y grisiau hanesyddol. Diogelir ramp mynediad y pontŵn gyda giât wedi'i gosod ar ochr y tir. Pan ganiatawyd y datblygiad presennol, rhagwelwyd y byddai'r cyhoedd yn parhau i gael mynediad dirwystr i'r harbwr drwy ddefnyddio ramp mynediad y pontŵn.

**2.6** Yn ddiweddar, mae Clwb Hwylio Madog wedi gohebu â'r Uned Morwrol a nodwyd y byddai Clwb Hwylio Madog yn gwrthod rhoi mynediad i lestri sy'n ymwneud â gweithgarwch masnachol. Mae'r Uned Morwrol o'r farn bod yn rhaid diogelu mynediad i'r holl ddefnyddwyr waeth beth fo'r defnydd, boed yn ddefnydd masnachol neu ddefnydd hamdden.

2.7 Felly, pe bai gosod pontŵn yn cael ei ganiatáu, mae'n hanfodol bod Clwb Hwylio Madog yn sicrhau:-

***i)*** Wrth leoli'r pontŵn, bydd yn rhaid dangos na fydd y datblygiad yn effeithio ar lif y dŵr, boed yn llanw neu drai.

***ii)*** Ni fydd estyniad y pontŵn yn effeithio ar osod llestri mewn angorfeydd cyfagos. Pe bai'r datblygiad yn effeithio ar angorfeydd cyfagos, byddai gofyn i'r Clwb Hwylio sicrhau y byddai'n talu i weithredu unrhyw fesurau i gywiro hyn.

***iii)*** Y diogelir mynediad i'r cyhoedd ar y pontŵn 'ymweld' ar gyfer byrddio a glanio teithwyr neu nwyddau er dibenion hamdden a masnach.

***iv)*** Bydd angen ad-dalu'n llawn yr incwm fyddai Cyngor Gwynedd yn ei golli drwy ymestyn y pontŵn. Rhagwelir y bydd cyfanswm o wyth angorfa yn cael eu symud oddi yno er mwyn gwneud lle i'r datblygiad arfaethedig. Mae hyn yn golled incwm sylweddol.

## *3 – Ystadegau'r Harbwr*

***3.1*** Noda'r tabl yn yr atodiad fod **955 o** Gerbydau Dŵr Personol wedi cofrestru â Chyngor Gwynedd yn 2010. Mae hyn yn cymharu â **892** yn 2009, ac felly'n gynnydd o **63** eleni. Cofrestrwyd cyfanswm o **1378** o Gychod Pŵer gyda Chyngor Gwynedd a'r mwyafrif o'r llestri, cyfanswm o **714,** wedi cofrestru drwy ohebu'n uniongyrchol â'r Swyddog Morwrol.

***3.2*** Nodir bod nifer y Cerbydau Dŵr Personol a'r Cychod Pŵer a gofrestrwyd yn Swyddfa Harbwr Porthmadog ac ar draeth Morfa Bychan yn 2010 unwaith eto'n debyg i'r cyfanswm a gofrestrwyd yn **2009**.

***3.3*** Dengys y tabl y cofrestrwyd **28** Cwch Pŵer a **39** Cerbyd Dŵr Personol drwy Harbwr Porthmadog, a **32** Cwch Pŵer a 201 Cerbyd Dŵr Personol ar draeth Morfa Bychan. Mae'r ffi cofrestru ar gyfer cychod pŵer a Cherbydau Dŵr Personol yr un fath â'r llynedd, a nid oes cynnydd ynddynt i adlewyrchu'r chwyddiant blynyddol. Erys y ffioedd cofrestru yr un fath, sef **£15.00** ar gyfer cais drwy'r post, neu gallai'r ymgeisydd gofrestru ar y traeth yn uniongyrchol am ffi uwch o **£20.00.** Erys y ffioedd lansio yn ***£12.00*** y dydd neu ***£130.00*** am y tymor. Gan gofio'r cynnydd mewn TAW yn 2011, rhagwelir y bydd yn rhaid cynyddu'r ffioedd er ni fydd hyn yn effeithio ar incwm net Cyngor Gwynedd.

***3.4*** Noda'r tabl yn yr atodiad fod **177** o gychod pleser wedi angori yn yr harbwr eleni, o gymharu â **180** yn 2009. Felly, defnyddiwyd 74% o'r angorfeydd, sy'n ostyngiad o ***1%.*** O'r angorfeydd hyn, defnyddiwyd **32%** ohonynt gan breswylwyr lleol sy'n byw yng Ngwynedd ar sail barhaol, a **68%** gan bobl sy'n byw y tu allan i'r sir. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y llestri sy'n defnyddio angorfeydd, mae cyfanswm hyd y llestri ym Mhorthmadog wedi cynyddu. Dengys hyn fod cyfanswm hyd llestri'n parhau i gynyddu.

***3.5*** Yn ystod misoedd yr haf, bu i nifer o gychod geisio lansio ym Morfa Bychan wrth ddefnyddio Trwyddedau Cofrestru ffug. Er bod y trwyddedau cofrestru ffug hyn yn rhai o ansawdd da, llwyddodd y staff ym Morfa Bychan i adnabod y gwahaniaeth rhwng y rhai hynny a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd â'r trwyddedau ffug ac mae gwyliadwriaeth y staff morwrol i'w ganmol. Rhoddwyd gwybod i Awdurdod yr Heddlu a bu i'r Swyddogion fod yn gymorth i'r staff trwy archwilio llestri eraill yn yr ardal gyfagos. Cymerwyd ymaith oddeutu ugain trwydded ffug.

## *4.0 Cyllidebau'r Harbwr*

***4.1*** Er gwybodaeth i'r Aelodau, ceir ynghlwm adroddiad cyllideb terfynol yr harbwr ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/10; y sefyllfa ariannol hyd at 31 Awst 2010, ynghyd â chyllideb refeniw'r harbwr a'r targedau incwm ar gyfer 2010/11.

***4.2*** Oherwydd y tywydd gwael a gafwyd yn ystod mis Awst eleni, mae'n debygol iawn na fydd penawdau incwm yr Uned Morwrol yn cyrraedd eu targed incwm yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd angen bod yn hynod wyliadwrus yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn defnyddio mwy o arian na'r hyn sydd yn y gyllideb. Bydd yr Harbwrfeistr a Swyddog Morwrol - Harbyrau yn darparu rhaglen gynnal a chadw manwl ar gyfer tymor yr hydref er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn harbwr Porthmadog.

***4.3*** Ceir pryderon ynghylch targed incwm harbwr Porthmadog eleni. Bydd aelodau'n nodi y dengys yr atodiadau mai **£77,910** yw'r targed incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Hyd yn hyn, mae incwm harbwr Porthmadog wedi cyrraedd **£70,839**, sy'n **£7,070** yn is na'r

targed. Ni ragwelir y bydd yna ychwanegiad sylweddol i'r incwm rhwng mis Hydref a mis Mawrth 2011.

## *5.0 Cynnal a Chadw Angorfeydd*

***5.1*** Yn ystod misoedd y gaeaf, bydd yr Harbwrfeistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn cydlynu'r gwaith o archwilio a chynnal a chadw angorfeydd harbyrau ar gyfer 2011. Bydd yr Uned Morwrol yn parhau i archwilio'r angorfeydd ym Mhorth y Gest, a phe na defnyddiwyd angorfa yn ystod 2010, bydd perchennog yr angorfa yn derbyn cyfarwyddiadau clir i glirio'r safle. Bydd staff yr harbwr yn clirio'r angorfa os na fydd perchennog yr angorfa yn cael ei adnabod cyn diwedd mis Rhagfyr 2010. Dyma oedd y drefn yn 2009.

***5.2*** Bydd pob angorfa o fewn awdurdod harbwr Porthmadog yn cael ei harchwilio a'i chynnal gan gontractwr penodedig a disgwylir y bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ionawr 2011. Bydd contractwyr priodol cymwys yn cael eu gwahodd i dendro am y gwaith. Mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cynnal a chadw cadwyni, a phrynu rhai newydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac ni ragwelir y bydd angen buddsoddiad sylweddol yn 2010/11.

***5.3*** Bydd copi manwl o'r adroddiad cofnodi gwasanaeth angorfeydd yn cael ei gylchredeg i Aelodau'r pwyllgor yn y cyfarfod. Bydd Aelodau'n nodi gwelliant yn ansawdd a safon yr adroddiad archwilio a ddarparwyd gan y contractwr penodedig yn 2009/10.

## *6.0 Storm Arw mis Gorffennaf 2010*

***6.1*** Yn ystod y nos ac yn gynnar bore dydd Iau'r 15fed a Gwener y 16eg o Orffennaf 2010, bu i storm arw daro harbyrau a thraethau Gwynedd. Cofnodwyd cyflymder gwynt o hyd at 85 milltir yr awr yn Aberdaron yn ystod oriau mân 16eg Gorffennaf ac amcangyfrifir bod cyflymder y gwynt yn harbwr mewnol Porthmadog wedi cyrraedd grym 10 ar Raddfa Beaufort. Roedd hon yn storm eithriadol, ac er bod y gwynt yn gryf, nid oedd wedi'i darogan.

***6.2*** Rhybuddiwyd yr Uned Morwrol gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau ac fe'u galwyd i'r harbwr am hanner nos. Roedd y staff yno cyn 01.00 yn ogystal â chriw Bad Achub Cricieth ac aelodau'r Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau. Wrth gyrraedd yr harbwr, nodwyd bod llestr pŵer fawr wedi dod yn rhydd o'i hangorfa oedd wedi'i lleoli ymhellach tua'r môr ac roedd peryg i'r llestr gael ei gwthio ar y bontffordd. Gosodwyd y llestr mewn angorfa dros dro ac yn ffodus daliodd yr angorfa'n sownd nes i'r storm dawelu a gosodwyd y llestr yn ei angorfa barhaol fore trannoeth. Erbyn 03.00 roedd y storm wedi gostegu a diogelwyd pob llestr oedd wedi dod yn rhydd.

***6.3*** Dychwelodd staff yr Uned Morwrol i'r harbwr am 08.00 a dechreuwyd y gwaith o osod nifer o lestri yn eu hangorfeydd ar unwaith. Difrodwyd nifer o lestri yn sylweddol. Wrth edrych ar y sefyllfa, daeth yn amlwg fod y strops angori wedi dod yn rhydd un ai ar flaen nifer o lestri, neu ar eu starn. Roedd yr offer angori, o'r codwr angor i'r angorau mewn un darn, sy'n dangos pa mor effeithiol mae ymrwymiad Cyngor Gwynedd i fuddsoddi i gynnal a chadw'r angorfeydd wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## *7.0 Cyfarfodydd Pwyllgorau Harbwr*

***7.1*** Cyflwynwyd cais i Gyngor Gwynedd gan Gyngor Cymuned Aberdyfi yn gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried cyflwyno un cyfarfod arall o'r Pwyllgor Harbwr i galendr pwyllgorau'r

Cyngor, sydd wedi'i raglennu'n barod. Gofynna Cyngor Cymuned Aberdyfi i'r cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor harbwr fod yn gyfarfod ar y cyd o gynrychiolwyr pob Pwyllgor Harbwr ac iddo gael ei gynnal ar ddyddiad fyddai hanner ffordd rhwng y Pwyllgorau a raglennwyd yn barod, un ai yn ystod misoedd yr haf, neu ar ddiwedd mis Rhagfyr/dechrau mis Ionawr.

*7.2* Atgoffir aelodau bod cynrychiolwyr o’r Pwyllgorau Harbwr eraill yn aelodau cyfetholedig ar bob un o’r Pwyllgorau Harbwr yn barod, ac y cyflwynwyd y cynllun hwn gan yr Uned Morwrol a Pharciau Gwledig er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sy’n berthnasol i bob harbwr yn cael ei rhannu rhwng y Pwyllgorau. Gwahoddir cynrychiolwyr o Bwyllgorau Harbwr eraill i fynychu gyda’r bwriad o raeadru’r wybodaeth yn uniongyrchol i’r Pwyllgorau Harbwr y maent yn eu cynrychioli.

*7.3* Gofynnir am safbwynt yr Aelodau ynghylch cynnig Cyngor Cymuned Aberdyfi i sefydlu cyfarfod ar y cyd o'r holl Bwyllgorau Harbwr yn ychwanegol i'r cyfarfodydd presennol a gynhelir bob chwe mis. Barn yr Uned Morwrol a Pharciau Gwledig yw bod y system bresennol yn gweithredu yn unol â’r Adolygiad Porthladdoedd Bwrdeistrefol ac yn galluogi i Aelodau dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac i gyfrannu a chyflwyno sylwadau ar God Diogelwch Morol Porthladd yr harbwr perthnasol.

## *8.0* ***Ffioedd a Thaliadau – Cynnig drafft***

***8.1*** Rhagwelir y bydd yr adroddiad blynyddol ar ffioedd a thaliadau’n ymwneud â’r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig ar gyfer 2011/12 yn cael ei gyflwyno i’r Arweinydd Portffolio tuag at ddiwedd mis Rhagfyr. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw gynnydd sydd ei angen er mwyn cynnal ffioedd a thaliadau yn unol â chwyddiant yn ystod 2011/12 gan y bydd TAW yn cynyddu 2.5% ar 1 Ionawr 2011, ac felly bydd costau ychwanegol i gwsmeriaid yr harbwr.

***8.2*** Ar hyn o bryd, nid yw Harbwr Porthmadog wedi’i rannu'n wahanol ardaloedd ble mae ffioedd gwahanol yn berthnasol i wahanol ardaloedd o'r harbwr. Yn ddiweddar, mae’r Uned Morwrol wedi bod yn ystyried amryw o opsiynau gan gofio bod gan rai ardaloedd yn yr harbwr well mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau a hefyd eu bod yn cael eu cysgodi rhywfaint o gymharu ag angorfeydd sydd wedi'u lleoli draw am y môr.

***8.3*** Mae gan bob angorfa ym Mhorthmadog rif, a chofnodir pob rhif yn y cynllun angori harbwr sydd wedi'i atodi. Ar gyfer 2011/12, cynigir y dylid codi ffioedd a thaliadau gwahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd yn yr harbwr, a bwriedir i'r ffioedd disgwyliedig fod yn ddibynnol ar leoliad yr angorfa.

***8.4*** Mae copi o’r ffioedd a’r taliadau presennol yn ogystal â’r bwriad newydd ar gyfer ffioedd a thaliadau harbwr Porthmadog ynghlwm. Gofynnir i'r aelodau gyflwyno sylwadau ar fformat newydd y ffioedd a'r taliadau ac atgoffir Aelodau o'r gofyn i sicrhau bod yr Harbwr yn cyrraedd y targed cyllideb incwm blynyddol.

## *9.0* ***Borth y Gest - Cychod Gweini a Dingis***

***9.1*** Yn ystod misoedd yr haf, mae staff Uned Morwrol a Pharciau Gwledig wedi bod yn clirio cychod gweini oedd wedi'u gadael a chychod hwylio oedd wedi'u hesgeuluso o'r ardal sydd gyfagos â'r pwynt mynediad ym Mhorth y Gest. Gosodwyd rhybuddion yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y gofyn i gofrestru cychod gyda'r Harbwrfeistr os oeddent i gael eu storio ar dir y Cyngor. Symudwyd y cychod gweini nad oeddent wedi'u cofrestru i gompownd yr harbwr. Bydd y cychod gweini sydd ddim yn cael eu hawlio cyn diwedd mis Hydref 2010 yn cael eu sgrapio a'u gwaredu. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y môr ac ar y tir yn ardal Borth y Gest yn ystod diwedd 2010, ac unwaith eto cynghorir y cyhoedd i gofrestru eu cychod gyda'r Harbwrfeistr, neu fel arall bydd y cychod yn cael eu symud oddi yno. Hefyd, cynghorir perchnogion angorfeydd i gysylltu â'r Harbwrfeistr er mwyn cofrestru eu hangorfa. Bydd angorfeydd sydd heb eu cofrestru, a heb eu gwasanaethu yn cael eu symud oddi yno.

***9.2*** Mae'r pwynt mynediad ar y blaendraeth ym Mhorth y Gest wedi cael ei gamddefnyddio yn ystod misoedd yr haf, ac mae cychod pŵer a Cherbydau Dŵr Personol heb eu cofrestru wedi bod yn defnyddio'r ramp mynediad. Er mwyn rheoli defnydd y pwynt mynediad, bwriedir gosod bolard diogelwch ar frig y ramp mynediad er mwyn atal cychod nad ydynt wedi'u cofrestru rhag lansio a dychwelyd ym Mhorth y Gest. Er y rhagwelir y gall hyn fod yn anhwylus i'r sawl sy'n lansio dingis hwylio bychan a chychod gweini, ystyrir cyflwyno allwedd i'r unigolion hynny fydd yn cydymffurfio â thelerau Trwydded er mwyn iddynt gael mynediad trwy'r bolard diogelwch. Bydd yr Aelodau'n cofio'r bolard diogelwch a osodwyd ar frig y pwynt mynediad yn y gorffennol oherwydd bod llestri heb eu cofrestru'n ei gamddefnyddio'n ormodol.